

ARIANNU
A CHYLLID

Rheoli Trafferthion Ariannol ac Ansolfedd mewn Elusennau

COMISIWN ELUSENNAU

Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y ffordd orau bosibl er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau arbennig o elusennau gofrestru. Mae tua 180,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau'r Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu i ddatrys problemau. Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 roi gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym materion elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

Fe gewch fwy o wybodaeth am y Comisiwn ynghyd ag amrywiaeth o ganllawiau i elusennau ar ein gwefan **www.charitycommission.gov.uk**.

Gellir gweld neu lawrlwytho pob un o gyhoeddiadau'r Comisiwn y cyfeirir atynt yn y cyhoeddiad hwn ar ein gwefan.

Cynnwys

A. Cyflwyniad 2

B. Rheolaeth ariannol a rôl ymddiriedolwyr 5

C. Beth yw ansolfedd? 12

Ch. Wynebu'r posibilrwydd o ansolfent 16

D. Rhwymedigaeth ymddiriedolwyr 24

Dd. Rôl y Comisiwn Elusennau 28

E. Ffynonellau gwybodaeth bellach 31

Crynodeb

Mae gan bob ymddiriedolwr elusen ddyletswydd sylfaenol i ddiogelu asedau ei elusen a'u defnyddio i hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd. Yn wyneb yr amrywiaeth o weithgareddau y mae elusennau'n ymgymryd â nhw, y mathau gwahanol o gyllid a dderbyniant a'r effaith a gaiff unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd ar eu ffynonellau ariannu, bydd nifer o elusennau yn wynebu ansicrwydd ariannol ryw bryd neu'i gilydd. Os yw'r elusen mewn trafferthion ariannol, gall y risg o ansolfedd fod yn fwy os nad yw'r ymddiriedolwyr yn gweithredu'n brydlon i ymdrin â'r sefyllfa.

A. Cyflwyniad

A1. Am beth mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor a gwybodaeth i ymddiriedolwyr elusennau sy'n wynebu trafferthion ariannol. Bydd o ddefnydd cyffredinol hefyd i elusennau sydd am leihau'r risg o ansolfedd drwy roi rheolaethau ariannol effeithiol ar waith.

Mae'r canllaw hefyd yn rhoi cyngor ar agweddau ar Ddeddf Ansolfedd 1986, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ansolfedd 2000 a Deddf Menter 2002. Mae'n disgrifio:

- sut y mae'n gymwys i gwmnïau elusennol; a
- sut y gall elusennau anghorfforedig ddefnyddio rhai o'r profion o dan y Ddeddf Ansolfedd i helpu asesu eu sefyllfa eu hunain.

Pan gyfeiriwn at 'ansolfedd' yn y canllaw hwn, mae'n derm cyfleus a ddefnyddiwn ar gyfer pob elusen waeth beth fo'i strwythur cyfreithiol. Os oes gwahaniaeth cyfreithiol rhwng yr hyn sy'n gymwys i elusennau corfforedig ac anghorfforedig, mae hynny'n cael ei nodi'n glir yn y testun.

Mae ansolfedd yn fater cymhleth ac argymhellwn yn gryf fod cyngor proffesiynol yn cael ei geisio cyn gynted ag y mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod yr elusen yn wynebu sefyllfa ansolfedd.

A2. 'Rhaid' a 'dylai': beth ydym yn ei olygu

Yn y canllaw hwn, pan ddefnyddiwn 'rhaid', golygwn ei fod yn ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol sy'n effeithio ar ymddiriedolwyr neu elusen. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gydymffurfio â'r gofynion hyn. Er mwyn eich helpu i adnabod yn well yr adrannau hynny sy'n cynnwys gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol rydym wedi defnyddio'r symbol C wrth ymyl y pennawd adran.

Defnyddiwn 'dylai' ar gyfer eitemau y teimlwn sy'n arfer da lleiaf, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol penodol ar eu cyfer. Dylai ymddiriedolwyr ddilyn y canllawiau arfer da oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Cynigiwn gyngor llai ffurfiol hefyd ac argymhellion a allai fod yn ddefnyddiol i ymddiriedolwyr wrth iddynt reoli eu helusen.

A3. Canllawiau blaenorol

Mae'r fersiwn hwn o *Reoli Trafferthion Ariannol ac Ansolfedd mewn Elusennau* wedi cael ei ddiweddaru a'i ailysgrifennu mewn fformat newydd ond nid yw'n cynnwys unrhyw newid polisi.

A4. Cwmpas y canllaw hwn

Mae'r canllaw yn ceisio esbonio:

- elfennau allweddol rheolaeth ariannol effeithiol a rôl ymddiriedolwyr;
- ystyr ansolfedd;
- y dewisiadau wrth wynebu'r posibilrwydd o fod yn ansolfent;
- y rhwymedigaethau personol a all fod ar ymddiriedolwyr; a

- rôl y Comisiwn Elusennau os yw elusennau'n wynebu ansolfedd neu'n ansolfent.

Mae'r wybodaeth a'r cyngor yn y canllaw hwn yn berthnasol i elusennau o bob lliw a llun. Fodd bynnag, gall rhai o'r manylion fod yn wahanol os yw elusen:

- yn anghorfforedig (hy, nid yw wedi'i sefydlu fel cwmni o dan y Ddeddf Cwmnïau);
- fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Seneddol;
- cafodd ei hymgorffori gan Siarter Frenhinol neu Lythyron Patent; neu
- mae'n Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus.

A5. Ystyr rhai o'r termau a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Busnes gweithredol yw gallu sefydliad i weithredu yn y dyfodol agos.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio at ddibenion penodol, a bennwyd gan, er enghraifft, y rhoddwr, y rhoddwr grant neu delerau apêl gyhoeddus. Yn aml gall cronfeydd cyfyngedig gael eu gwario yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr er mwyn hyrwyddo rhyw agwedd(au) ar ddibenion yr elusen, fel y pennwyd gan y rhoddwr, y rhoddwr grant neu delerau apêl. Ni all cronfeydd cyfyngedig gael eu gwario ar unrhyw ran arall o waith yr elusen.

Cronfeydd gwaddol yw cronfeydd a ddelir yn amodol ar ymddiriedolaethau penodol sy'n cael eu datgan gan y rhoddwyr. Gall cronfa waddol fod yn elusen yn ei rhinwedd ei hun neu'n ymddiriedolaeth arbennig elusen. Gall cronfa waddol fod yn wariadwy neu'n barhaol.

- **Gwaddol gwariadwy** yw cronfa a all gael ei buddsoddi i gynhyrchu incwm. Yn dibynnu ar yr amodau sydd ynghlwm wrth y gwaddol a natur y gwaddol, bydd pŵer cyfreithiol gan yr ymddiriedolwyr i droi'r cyfan neu ran ohono yn gronfa incwm y gellir ei gwario. Mae cronfa waddol wariadwy yn wahanol i gronfa incwm gyffredin oherwydd nid oes unrhyw ofyniad gwirioneddol i wario'r cyfalaf at ddibenion yr elusen oni bai neu hyd nes bod yr ymddiriedolwyr yn penderfynu gwneud hynny.
- **Gwaddol parhaol** yw cyfalaf sydd i'w ddefnyddio i gynhyrchu incwm i'r elusen nad oes modd ei wario fel incwm. Bydd y ddogfen sy'n cyfeirio sut y dylid dal yr eiddo mwy na thebyg yn mynnu y dylai'r cyfalaf gael ei fuddsoddi a dylai'r incwm o'r buddsoddiad gael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol penodol. Hefyd gall gynnwys asedau cyfalaf y mae'n rhaid eu defnyddio at ddiben neu ddibenion penodol yr elusen. Mae enghreifftiau cyffredin o'r math hwn o waddol yn cynnwys neuaddau pentref, meysydd chwarae, tai, amgueddfeydd ac adeiladau hanesyddol.

Cronfeydd wrth gefn yw'r adnoddau sydd gan elusen, neu y gall elusen eu defnyddio i'w gwario ar unrhyw ddiben

neu bob un o ddibenion yr elusen ar ôl iddi fodloni ei hymrwymiadau a darparu ar gyfer ei gwariant arfaethedig arall.

Cwmni elusennol yw elusen sy'n gwmni a ffurfiwyd ac a gofrestrwyd o dan y Ddeddf Cwmnïau.

Deddf 1993 yw Deddf Elusennau 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Elusennau 2006.

Deddf Ansolfedd yw Deddf Ansolfedd 1986, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ansolfedd 2000 a Deddf Menter 2002.

Dogfen lywodraethol yw unrhyw ddogfen sy'n amlinellu dibenion yr elusen ac, fel arfer, y dull o'i gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn femorandwm ac erthyglau cymdeithasu, yn gynllun y Comisiwn, yn drawsgludiad neu'n ewyllys.

Elusen anghorfforedig yw elusen **sydd heb:**

- ei ffurfio a'i chofrestru fel cwmni o dan Ddeddf Cwmnïau 2006;
- ei ffurfio a'i chofrestru fel Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus;
- ei sefydlu gan Siarter Frenhinol neu Lythyron Patent; neu
- ei chorffori gan statud.

Is-gwmni masnachu yw unrhyw gwmni masnachu anelusennol, ym mherchnogaeth lwyr, neu mae'r mwyafrif ohono ym mherchnogaeth elusen i ymgymryd â gweithgareddau masnachu ar ran yr elusen gyda'r nod o godi arian mewn ffordd dreth-effeithlon.

Methdaliad yw'r drefn sydd ar gael i unigolion ansolfent - rhywun sydd ag asedau annigonol i dalu am eu dyledion a'u rhwymedigaethau. Mae asedau'r unigolyn sydd wedi mynd yn fethdalwr yn cael eu realeiddio a'u dosbarthu i'r rhai y mae angen arian iddynt.

Ymddiriedolwr daliannol: Mae ymddiriedolwyr daliannol yn unigolion a benodir i ddal eiddo'r elusen. Gallant weithredu dim ond ar gyfarwyddiadau cyfreithiol yr ymddiriedolwyr elusen ac yn unol ag unrhyw ddarpariaethau yn y ddogfen lywodraethol.

Ymddiriedolwr gwarchod yw corfforaeth a benodwyd i warchod, yn hytrach na rheoli, eiddo'r ymddiriedolaeth. **Nid** yw ymddiriedolwr gwarchod yn ymddiriedolwr elusen.

Ymarferwr ansolfedd yw unigolyn awdurdodedig sy'n arbenigo mewn ansolfedd, cyfrifydd neu gyfreithiwr fel arfer.

Ymddiriedolwyr yw **ymddiriedolwyr elusen**. **Ymddiriedolwyr elusen** yw'r bobl sy'n gyfrifol am reoli'r elusen yn gyffredinol yn unol â dogfen lywodraethol yr elusen. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gellir eu galw'n ymddiriedolwyr, yn ymddiriedolwyr rheoli, yn aelodau pwyllgor neu'n llywodraethwyr, neu gellir cyfeirio atynt trwy ddefnyddio rhyw deitl arall. **Cyfarwyddwyr** cwmni elusennol yw'r ymddiriedolwyr elusen.

B. Rheolaeth ariannol a rôl ymddiriedolwyr

B1. Pam mae rheoli a rheolaeth ariannol effeithiol yn bwysig?

Yr ateb byr

Mae'n hanfodol i gorff ymddiriedolwyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r elusen a'i chyllid er mwyn gallu sicrhau, cyn belled â phosib, hyfywedd parhaus yr elusen a'i gweithgareddau elusennol.

Yn fwy manwl

Mewn achosion prin gall ansolfedd ddigwydd dros nos, er enghraifft pan fydd elusen yn dibynnu'n llwyr neu bron yn llwyr ar incwm grant sy'n dod i ben ar fyr rybudd ac ni ellir cael cyllid yn ei le drwy ffynonellau incwm eraill. Yn y rhan fwyaf o achosion eraill, ar yr amod bod rheolaethau ariannol priodol yn eu lle, dylai fod modd i ymddiriedolwyr adnabod risgiau ariannol a chynllunio ar gyfer eu rheoli yn gynnar yn y broses, er gwaethaf newidiadau yn yr amgylchedd economaidd y mae'n gweithredu ynddo.

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am lywodraethu effeithiol a gweithredu dulliau rheoli ariannol priodol, ond mae'n bosibl y bydd yn cynnwys pob aelod staff, boed yn weithwyr cyflogedig neu'n wirfoddolwyr. Gall fod yn ddefnyddiol i ymddiriedolwyr ddarllen ein canllawiau cysylltiedig:

- *Nodweddion Elusen Effeithiol* (CC10)
- *Rheolaethau Ariannol Mewnol ar gyfer Elusennau* (CC8)
- *Elusennau a Rheoli Risg* (CC26)
- *Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau* (CC19)
- *Testun Trafod*

B2. Beth yw elfennau allweddol rheoli a rheolaeth ariannol effeithiol?

C

Yr ateb byr

Dylai'r corff ymddiriedolwyr gynnwys pobl sy'n gallu neilltuo amser i redeg yr elusen ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r galluoedd priodol. Dylai'r elusen gael strategaeth hirdymor ar gyfer cyflawni ei hamcanion sy'n cynnwys cyllid, gweithrediadau a llywodraethu. Mae ansolfedd yn risg ariannol, felly mae'n bwysig bod cyfarfodydd ymddiriedolwyr cyson yn cael eu cynnal lle mae adroddiadau a diweddariadau ariannol yn cael eu darparu ac mae'r sefyllfa ariannol, cyllidebau a rhagamcaniadau ariannol yr elusen yn cael eu hystyried yn fanwl.

Yn fwy manwl

Dylai'r ymddiriedolwyr ystyried sefyllfa ariannol gyffredinol yr elusen yn gyson. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod:

- anghenion buddiolwyr yn cael eu hateb;
- gofynion cyllidwyr o ran cyflenwi gwasanaeth yn cael eu bodloni;
- staff a gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol;

Rhai o'r prif ystyriaethau i'r ymddiriedolwyr fydd:

- **Cyllidebau** gan gynnwys rhagamcaniadau arian a chynlluniau busnes. Rhaid cynhyrchu'r rhain yn flynyddol o leiaf, ond yn fwy aml os yw'r hinsawdd ariannol yn ei gwneud hi'n angenrheidiol neu'n ddymunol. Mae'n haws rhagweld gwariant nag incwm yn aml. Mae'n bwysig bod rhagamcaniadau gwariant yn ystyried yr holl rwymedigaethau a hapddigwyddiadau y gwyddys amdanynt.
- Dylid rhoi **rheolaethau ariannol mewnol effeithiol** ar waith (gweler ein canllaw *Rheolaethau Ariannol Mewnol ar gyfer Elusennau (CC8)*). Mae hyn yn cynnwys rheolaethau dros wariant ac incwm a dealltwriaeth a chyfrifyddu priodol ar gyfer Treth ar Werth (TAW), treth incwm a rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol drwy Dalu Wth Ennill (PAYE). Mae'r rhain i gyd yn rhwymedigaethau statudol a gall camgymeriadau yn y cyfrifon greu rhwymedigaethau a chosbau mawr ac annisgwyl. Cewch wybodaeth am

faterion treth gan Gyllid a Thollau EM (HMRC).

- Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen dylid monitro'r **canlyniadau gwirioneddol** yn erbyn y gyllideb. Argymhellwn fod yr ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa ariannol yr elusen a'i pherfformiad yn erbyn cyllidebau a rhagamcaniadau'r dyfodol unwaith y mis o leiaf, ond bydd graddfa'r adolygiad yn amrywio yn ôl maint a sefydlogrwydd yr elusen. Gall dadansoddiad priodol o dueddiadau a newidiadau ariannol mewn rhagamcaniadau cyllideb helpu i adnabod problemau ariannol yn gynnar.
- Dylid dadansoddi **ffynonellau incwm a gwariant**. Mae'r risg o ansolfedd yn cael ei leihau trwy gael ffynonellau amrywiol o incwm a chraidd o gyllid diogel, gan osgoi gorddibynnu ar unrhyw un ffynhonnell. Bydd angen nodi problemau posibl megis ansicrwydd ynghylch cyllid grant, treth a TAW a chymalau cosb o fewn contractau. I gael mwy o wybodaeth am gontractau a materion cysylltiedig, gweler ein canllaw *Elusennau a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus: Cyflwyniad a Throsolwg* (CC37).
- Dylai **polisïau risg a chronfeydd wrth gefn** fod ar waith a chael eu hadolygu'n gyson (gweler ein canllaw *Elusennau a chronfeydd wrth gefn* (CC19) ac *Elusennau a Rheoli Risg* (CC26)). Mae adnabod risg a deall pam y mae angen dal cronfeydd wrth gefn yn rhan bwysig o'r broses gynllunio a chyllidebu. Er enghraifft, gall fod modd defnyddio cronfeydd wrth gefn mewn adegau ariannol anodd.
- Dylid ceisio **cyngor proffesiynol** cyn ymgymryd â thrafodion a all greu ymrwymiadau ariannol arwyddocaol yn y dyfodol. Gallai'r rhain gynnwys contractau adeiladu, trefniadau prydlesu a benthyciadau. Dylai'r ymddiriedolwyr sicrhau y byddant yn debygol o allu bodloni ymrwymiadau o'r fath yn llawn. Gall ymddiriedolwyr elusennau anghorfforedig wynebu mwy o risg o rwymedigaeth bersonol os oes rhaid bodloni ymrwymiadau ariannol o ffynhonnell incwm ansicr yn y dyfodol, neu nid oes gan yr elusen asedau digonol i'w realeiddio i fodloni'r rhwymedigaeth berthnasol.
- Dylai **perfformiad yn erbyn contractau, trefniadau grant ac ariannu** gael eu monitro a'u hadolygu yn erbyn yr wybodaeth briodol sy'n ofynnol gan delerau'r cyllid hwnnw. Dylid gweithredu'n amserol os nad yw perfformiad wedi cyrraedd yr hyn a gytunwyd neu a bennwyd.
- **Buddsoddiadau:** os yw elusen yn dal buddsoddiadau, dylai'r ymddiriedolwyr sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle i:
- fonitro perfformiad buddsoddiadau gan gynnwys perfformiad buddsoddiadau mewn is-gwmnïau masnachu (gweler *Ymddiriedolwyr, masnachu a threth* (CC35)); ac
- ystyried yr angen i gynnal portffolio amrywiol;

Fel rheol bydd angen ceisio cyngor proffesiynol ar fuddsoddi arian elusennol. Mae mwy o wybodaeth am fuddsoddi arian elusennol i'w gweld yn ein cyhoeddiad *Buddsoddi Cronfeydd Elusennol: Egwyddorion Sylfaenol* (CC14).

- Gallai **damwain neu ddigwyddiad annisgwyl** sy'n arwain at golled i'r elusen neu gais yn ei herbyn gan drydydd parti achosi anawsterau ariannol a gall hyd yn oed arwain at ansolfedd. Gall fod modd yswirio yn erbyn colledion o'r fath drwy brynu mathau amrywiol o yswiriant. Bydd yr union yswiriant sy'n fwyaf priodol yn amrywio o elusen i elusen, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u gweithgareddau. Cewch ragor o fanylion yn ein canllaw *Elusennau ac Yswiriant* (CC49).
- Dylai **uno** ag elusen arall neu elusennau eraill, mewn unrhyw achos, gael ei ystyried yn gyson oherwydd gallai gynnig ffordd o barhau neu wella'r gwasanaethau a gynigir i fuddiolwyr. Os yw, neu os gallai elusen wynebu anawsterau ariannol, mae uno yn un o'r dewisiadau a ddylai fod yn uchel ar yr agenda yn gynnar yn y broses. Fel dewis arall i uniad llwyr, gall fod modd trosglwyddo rhai gweithrediadau neu weithgareddau i elusen arall er mwyn darparu gwasanaeth di-dor i fuddiolwyr yr elusen. Gweler ein canllaw ar gydweithredu, sef *Adnoddau cydweithredu a chyfuno*.

B3. Sut gall cronfeydd arbennig gael eu defnyddio?

C

Yr ateb byr

Mae'n bwysig at ddibenion cynllunio bod yr ymddiriedolwyr yn ymwybodol sut y gall asedau ac adnoddau eu helusen gael ei ddefnyddio. Gellir defnyddio rhai cronfeydd ar gyfer pob un o ddibenion yr elusen a bydd eu rhoddwyr yn rhoi cyfyngiadau ynghylch sut y dylid eu defnyddio ar rai ohonynt.

Yn fwy manwl

Mae deall natur cronfeydd gwahanol elusen yn hanfodol er mwyn deall ei sefyllfa ariannol. Rhaid ystyried hyn wrth ddadansoddi ac asesu diddyledrwydd elusen.

Mae'n dor-ymddiriedaeth i ddefnyddio cronfeydd gwaddol neu gyfyngedig at ddibenion heblaw'r rhai y mae'r rhoddwr wedi'u rhoi ar eu cyfer. Erbyn hyn mae Deddf 1993 yn darparu gweithdrefn symlach ar gyfer gwario gwaddol parhaol sy'n gymwys i'r rhan fwyaf o elusennau. Ar gyfer cronfeydd gwaddol parhaol mwy gall fod angen ceisio ein cymeradwyaeth cyn y gall yr ymddiriedolwyr wario'r cyfalaf.

Fodd bynnag, mae adran 31 o Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000 yn darparu bod hawl gan ymddiriedolwr i dalu (neu gael ei ad-dalu) o gronfeydd yr elusen unrhyw dreuliau sydd wedi codi'n briodol ar ran yr elusen. Yn achos elusen anghorfforedig, gall hyn olygu y gellid defnyddio gwaddol parhaol neu gronfeydd cyfyngedig yr elusen honno i fodloni rhwymedigaethau'r elusen. Gall y cronfeydd parhaol neu gyfyngedig hyn fod ar gael i'r elusen os nad yw unrhyw asedau eraill ar gael. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i'r ymddiriedolwyr geisio cyngor proffesiynol ar hyn.

Mae'n bwysig penderfynu a yw cronfeydd gwaddol neu gyfyngedig yn elusennau ar wahân mewn gwirionedd, efallai wedi'u cysylltu drwy gyfrwng cyfarwyddyd uno neu drwy gyfrwng ymddiriedolaeth gyffredin. Gellir defnyddio'r cronfeydd sy'n eiddo elusennau ar wahân dim ond i dalu dyledion yr elusen benodol sy'n berchen arnynt.

Ni all cwmni elusennol ddal gwaddol parhaol fel rhan o'i eiddo corfforaethol. Fodd bynnag, gall cwmni elusennol weithredu fel ymddiriedolwr corfforaethol elusen a waddolwyd yn barhaol. Os yw'r cwmni yn wynebu

ansolfedd, **ni** fyddai'r cronfeydd hyn a waddolwyd yn barhaol (ac unrhyw gronfeydd eraill a ddelir ar ymddiriedolaethau arbennig) ar gael fel rheol fel rhan o eiddo corfforaethol y cwmni i dalu dyledion nad ydynt yn ymwneud â'r gwaddol parhaol neu'r ymddiriedolaethau arbennig.

Gall elusen gael cronfeydd sylweddol wedi'u cloi mewn asedau sefydlog swyddogaethol, ee ei hadeiladau, adeilad ysbyty neu gartref gofal. Fel rheol mae'r math hwn o ased yn cael ei ddefnyddio i alluogi'r elusen i gyflawni ei dibenion (neu swyddogaethau). Oni bai y caiff ei weithredu drwy gyfrwng trefniadau gwerthu a phrydlesu yn ôl, gallai gwaredu â'r asedau hyn olygu na all yr elusen barhau â'i gweithrediadau elusennol. Gall fod yn anodd i realeiddio gwerth asedau o'r fath yn gyflym, ac mae unrhyw warediad yn debygol o fod yn rhan o ailstrwythuro gweithgareddau yn gyffredinol.

B4. Beth mae mantolen yn ei ddweud wrth ymddiriedolwyr am sefyllfa ariannol elusen?

Yr ateb byr

Mae'n dweud wrthynt a oes gan yr elusen asedau digonol (y gellir eu realeiddio) i fodloni ei rhwymedigaethau gwirioneddol a'i rhwymedigaethau wrth gefn ar ddyddiad penodol.

Fel rheol mae mantolenni'n cael eu paratoi ar y sail y bydd yr elusen yn parhau'n fusnes gweithredol yn y dyfodol agos. Gall asedau sefydlog swyddogaethol, megis adeiladau swyddfa neu gerbydau, er enghraifft, gael eu dangos naill ai am gost neu werth ar y farchnad ar fantolen. Os na all yr elusen weithredu mwyach fel busnes gweithredol bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried sail y prisiad wrth asesu diddyledrwydd.

Yn fwy manwl

Os nad yw'r dybiaeth busnes gweithredol, y cyfeirir ati uchod, yn wir mwyach, bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried prisiad arall ar gyfer eu hasedau sefydlog swyddogaethol - prisiad gwerthu gorfodol efallai.

Hefyd, ni all rhai ymrwymiadau yn y dyfodol neu rwymedigaethau wrth gefn gael eu dangos ar y fantolen ond mae'n rhaid eu hystyried serch hynny. Rhaid i'r ymddiriedolwyr benderfynu a yw ymrwymiadau o'r fath yn gyfreithiol rwymol. Efallai na fydd rhai ymrwymiadau yn gyfreithiol rwymol, ond os na chânt eu bodloni, gallai'r elusen fod yn agored i risg sylweddol i'w henw da ac felly mae modd cyfiawnhau eu bodloni.

Gall fod rhwymedigaethau newydd hefyd sydd i'w hystyried, rhwymedigaethau a fyddai'n codi dim ond yn achos diddymu, megis costau dileu swydd staff, costau sy'n codi wrth realeiddio asedau a chostau proffesiynol.

C

C1. Beth yw ystyr cyfreithiol ansolfedd?

Yr ateb byr

Nid oes diffiniad statudol o 'ansolfedd' er bod Deddf Ansolfedd 1986, wrth gyfeirio at gyflwr o ansolfedd, yn defnyddio'r ymadrodd "anallu i dalu ei ddyledion". Yn ymarferol mae dau brawf gwahanol ar gyfer ansolfedd a gallai methu'r naill brawf neu'r llall fod yn arwydd o ansolfedd:

- ni all yr elusen dalu ei dyledion pan ddaw'r amser i'w talu;
- mae gwerth ei rhwymedigaethau yn fwy na gwerth ei hasedau.

I fod yn dechnegol gywir, ni all elusen anghorfforedig fod yn ansolfent oherwydd nid oes hunaniaeth gyfreithiol ar wahân ganddi i'w haelodau a'i hymddiriedolwyr. Mae hyn yn golygu bod unrhyw rwymedigaeth yr elusen yn rhwymedigaeth ei hymddiriedolwyr neu ei haelodau. Fodd bynnag, defnyddir y term 'ansolfedd' yn y canllaw hwn i ddisgrifio sefyllfa lle nad yw'r asedau sydd ar gael i'r elusen yn ddigonol i fodloni rhwymedigaethau'r ymddiriedolwyr neu aelodau.

Yn fwy manwl

Mae adran 123 o Ddeddf 1986 yn darparu bod cwmni yn cael ei ystyried yn gwmni nad yw'n gallu talu ei ddyledion pan:

- nad yw'r cwmni wedi talu, gwarantu neu fodloni cais am swm sy'n ddyledus i gredydwr sy'n fwy na £750 cyn pen tri mis o dderbyn cais statudol;
- mae credydwr wedi ceisio dwyn proses orfodi aflwyddiannus yn erbyn y cwmni ar gyfer dyled;
- mae'r llys yn fodlon na all y cwmni dalu ei ddyledion pan ddaw'r amser i'w talu (prawf llif arian);
- mae'r llys yn fodlon bod gwerth asedau'r cwmni yn llai na swm ei rhwymedigaethau, gan ystyried rhwymedigaethau wrth gefn a disgwyliedig (prawf mantolen).

Yn gyffredinol mae'r gyfraith ansolfedd yn ceisio achub neu ailstrwythuro busnes yn hytrach na'i ddiddymu. Gall achub cwmni gynhyrchu'r elw mwyaf i gredydwyr. Bydd achub cwmni yn cynnwys gwerthu busnes yn aml (yn rhydd o'i rwymedigaethau) i barti arall a defnyddio'r enillion gwerthu i dalu ei gredydwyr. Fel arfer nid yw hyn yn berthnasol i gwmnïau elusennol oherwydd nid yw'n debyg y bydd 'busnes' elusen ansolfent yn cael ei werthu i barti arall i dalu ei chredydwyr.

C2. Sut gall ymddiriedolwyr ddweud a yw eu helusen yn wynebu ansolfedd?

Yr ateb byr

Mae'r profion sylfaenol wedi'u nodi yn C1 uchod.

Mae'r **prawf llif arian neu hylifedd tymor byr** yn dangos a oes gan elusen adnoddau digonol hawdd cael atynt i fodloni pob un o'i rhwymedigaethau wrth iddynt godi a pharhau i'w bodloni yn y tymor byr. Yn syml, all yr elusen dalu ei dyledion pan fydd angen eu had-dalu?

Mae'r **prawf mantolen** yn canolbwyntio ar sefyllfa gyffredinol asedau'r elusen. Bydd yn dangos a oes gan yr elusen ddigon o asedau (sefydlog a chyfredol) i fodloni ei holl rwymedigaethau gwirioneddol a disgwyliedig. Fel rheol nid yw'r prawf mantolen yn ddigonol ar ei ben ei hun i bennu a yw elusen yn ansolfent ac fel rheol mae'n cael ei gymhwyso ynghyd â'r prawf llif arian neu'r prawf hylifedd tymor byr uchod.

Yn fwy manwl

Mae nifer o ddangosyddion eraill sy'n awgrymu y gallai'r elusen fod mewn perygl o fod yn ansolfent. Nid os modd rhoi rhestr gynhwysfawr oherwydd bydd y sefyllfa yn amrywio o un elusen i'r llall, ond yn y blwch isod rhestrir rhai cwestiynau y gallai fod yn ddefnyddiol ymddiriedolwyr eu gofyn:

Beth yw sefyllfa ariannol yr elusen?

- Ydym ni'n ystyried y risg o ansolfedd yn ein hasesiad risg cyffredinol?
- Pryd oeddem ni wedi cynnal asesiad risg ansolfedd diwethaf?
- Ydy ein hasedau cyfredol gyda buddsoddiadau yn llai na'n rhwymedigaethau cyfredol?
- Ydy ein cyfanswm asedau ac incwm rhagweladwy yn llai na'n cyfanswm rhwymedigaethau a gwariant disgwyliedig?
- Oes rhaid i ni wario ein cronfeydd wrth gefn yn rheolaidd oherwydd nid yn ein hadnoddau sy'n dod i mewn yn ddigon i fodloni holl ymrwymiadau'r elusen?
- Oes angen darparu gwarant ychwanegol ar gyfer benthyciadau hirdymor?

- Ydym ni o dan bwysau gan gredydwyr sy'n gofyn am daliadau hwyr?
- Ydy ein helusen yn dibynnu ar ddefnyddio arian o gronfeydd cyfyngedig i gyllido anghenion cyffredinol o ddydd i ddydd oherwydd nid yw unrhyw gronfeydd anghyfyngedig ar gael?
- Ydy ein helusen yn dibynnu ar fenthyciadau banc gyda dewisiadau adnewyddu neu estyn aneglur er mwyn parhau â'i gweithrediadau?
- Oes adroddiadau ariannol digonol gennym ac ydy'r ymddiriedolwyr yn ystyried yr adroddiadau hyn yn fanwl?
- Ydym ni wedi torri ein cyfamodau bancio neu ddefnyddio mwy na'n cyfleusterau benthyca heb unrhyw ddull uniongyrchol o adfer y sefyllfa?
- Oes rhwymedigaethau wrth gefn sylweddol posibl gan yr elusen?

Ni ddylid ystyried yr atebion i'r cwestiynau hyn ar eu pennau eu hunain. Byddai'n rhaid gwneud dadansoddiad manwl pellach cyn y gellid dod i unrhyw gasgliad ynghylch diddyledrwydd.

Os yw'r ymddiriedolwyr o'r farn bod posibilrwydd na allai eu helusen barhau i weithredu oherwydd ei sefyllfa ariannol, dylent ystyried cymryd y camau canlynol:

- Cysylltu â chyfrifydd yr elusen, ymarferwr ansolfedd neu gynghorydd proffesiynol arall i drafod y dewisiadau sydd ar gael iddynt a cheisio eu cymorth a'u cyngor. Dylai ymddiriedolwyr wneud nodyn gofalus o'r cyngor a gânt, a'r rhesymau dros unrhyw benderfyniadau y maent yn eu gwneud o ganlyniad i'r cyngor hwnnw.
- Llunio rhestr gyflawn o holl asedau a rhwymedigaethau'r elusen i bennu a yw'r elusen yn ddiddyled neu beidio. Mae angen i hyn ystyried costau ychwanegol cau'r elusen a allai gynnwys:
  - ffioedd ar gyfer cyngor cyfreithiol ac ariannol;
  - tâl dileu swydd/gwyliau/mamolaeth;
  - rhent ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o'r brydles ar offer neu adeiladau;
  - unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â thynnu'n ôl o brydlesi, ee adfeiliadau;
  - rhwymedigaethau pensiwn. Mae ein canllaw *Cynlluniau Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio: Cwestiynau ac Atebion* yn rhoi mwy o wybodaeth.
- Adnabod cronfeydd gwaddol a chyfyngedig. Ystyrir yn gyffredinol eu bod yn elusennau ar wahân mewn gwirionedd gyda'u hymddiriedolaethau eu hunain yn llywodraethu gwariant, a gellir eu defnyddio at y dibenion y cawsant eu rhoi yn unig (ond gweler adran B3). Yn dibynnu ar y telerau y cawsant eu rhoi arnynt, gall fod angen dychwelyd peth incwm cyfyngedig heb ei wario i'r cyllidwyr.

C3. All elusen barhau i weithredu os yw'n ymddangos ei bod yn ansolfent?

C

Yr ateb byr

Gall, ond dim ond gyda gofal mawr. Er iddo fethu'r profion y cyfeiriwyd atynt uchod ar adeg arbennig ac felly mae'n ymddangos ei fod yn ansolfent, gall sefydliad, yn dibynnu ar yr union amgylchiadau, barhau fel busnes gweithredol a heb gael ei orfodi i ddirwyn i ben.

Yn fwy manwl

Efallai y bydd rhaid i elusennau, yn y tymor byr, weithredu y tu hwnt i'w telerau credyd cytunedig, neu ddefnyddio ariannu tymor byr, tra eu bod yn aros i dderbyn arian disgwyliedig. Er enghraifft, gall hyn godi pan fydd oedi gweinyddol wrth dalu grant.

Fodd bynnag, bydd rhaid i gyfarwyddwyr cwmnïau elusennol sicrhau nad yw'r cwmni yn parhau i fasnachu os oeddent yn gwybod neu y dylent fod wedi dod i'r casgliad nad oedd unrhyw ragolygon rhesymol y byddai'r cwmni yn osgoi diddymiad ansolfent. Gelwir hyn yn **fasnachu ar gam** ac os yw'n cael ei brofi yn y llys gall y cyfarwyddwyr fod yn atebol yn bersonol. Nid yw masnachu tra eich bod yn ansolfent yn golygu eich bod yn masnachu ar gam o reidrwydd os oes disgwyl rhesymol y gellir osgoi diddymiad ansolfent.

Argymhellwn fod ymddiriedolwyr unrhyw elusen sy'n ymddangos ei bod yn ansolfent yn ceisio cyngor proffesiynol cyn cymryd unrhyw gamau adferol. Gall elusen gysylltu ag ymarferwr ansolfedd annibynnol, ond dylai ystyried cysylltu â'i harchwiliwr ariannol neu gyfrifydd proffesiynol ei hun (os oes un ganddynt). Gall ei harchwiliwr ariannol neu gyfrifydd argymell ymarferwr ansolfedd sy'n arbenigo mewn elusennau. Gallai cyfrifydd mewnol, cyfarwyddwr cyllid neu drysorydd yr elusen gynnig cymorth i'r ymddiriedolwyr wrth iddynt benderfynu a oes dewis arall i ansolfedd. Hefyd gallant gynnig sylwadau ar sut y gellid newid gweithdrefnau'r elusen er mwyn sicrhau bod digon o dystiolaeth bod yr ymddiriedolwyr wedi gweithredu'n briodol yn yr achos hwnnw. Mae gwefan y Gwasanaeth Ansolfedd yn cynnwys cronfa ddata o'r holl ymarferwyr ansolfedd ar http://www.insolvency-service.co.uk/newipsearch.htm.

Ch. Wynebu'r posibilrwydd o ansolfent

Ch1. Sut dylai elusen fynd i'r afael â'r posibilrwydd o ansolfedd?

Os yw rheolaeth a rheolaethau ariannol effeithiol yn eu lle, gellir osgoi neu ragweld ansolfedd yn gynnar. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr weithredu er mwyn datrys y sefyllfa yn y bwlch rhwng adnabod ansolfedd posibl a dwyn achos ansolfedd. Yn achos elusen anghorfforedig mae'n golygu pan fydd yr ymddiriedolwyr yn wynebu'r posibilrwydd o rwymedigaeth bersonol.

Argymhellwn fod cyngor proffesiynol priodol yn cael ei gymryd yn gynnar oherwydd mae angen ystyried a chynllunio camau unioni yn ofalus. Dylai cyngor o'r fath fod yn ysgrifenedig, a dylai unrhyw gamau adferol a awgrymir cael eu monitro ynghyd â chyllidebau a llifoedd arian newydd neu ddiwygiedig. Bydd cywirdeb y rhain yn dibynnu ar wybodaeth ariannol ddibynadwy a fydd yn bwysicach byth erbyn hyn. Wrth reoli'r broses hon cynghorir yr ymddiriedolwyr i gwrdd yn fwy aml a chofnodi penderfyniadau allweddol, gan gynnwys y rhesymau dros y penderfyniadau ac unrhyw drefniadau a wnaed.

Ch2. Pa gamau allai elusen ystyried eu cymryd pan fydd materion ansolfedd wedi codi?

Yr ateb byr

Bydd y camau y gall yr ymddiriedolwyr ystyried eu cymryd i ddelio â materion megis prinder incwm a sefydlu strwythurau a gweithdrefnau mwy effeithiol yn dibynnu i raddau helaeth ar natur pob elusen unigol a'r rheswm dros y trafferthion ariannol y mae'n eu hwynebu.

Yn fwy manwl

Mae dau faes allweddol i'r ymddiriedolwyr eu hystyried wedi'u nodi isod ac o dan bob un awgrymir y math o weithredu a allai fod yn briodol.

Delio â phrinder adnoddau sy'n dod i mewn:

- Datblygu ffynonellau cyllid eraill neu lansio apêl argyfwng. Dylid gofalu bod unrhyw arian a godir yn ddigon anghyfyngedig i dalu'r credydwyr presennol. Rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau bod rhoddwyr yn cael gwybod y gall yr arian newydd a godir gael ei ddefnyddio i dalu dyledion yr elusen.
- Cynnal adolygiad o'r ymrwymiadau i weld a ydynt yn gyfreithiol rwymol neu'n ddewisol. Hyd yn oed os oes cytundebau dan gontract gall fod lle i ail-drafod.
- Trafod sefyllfa'r elusen gyda'i banc, yn arbennig os yw benthyciadau wedi'u gwarantu yn erbyn eiddo'r elusen.
- Adolygu cyfleusterau benthyca neu fenthyciad presennol.
- Canfod cyfleusterau newydd i bontio nes bod incwm digonol wedi cael ei dderbyn. Dylid cymryd y camau hyn dim ond os yw'n sicr y bydd incwm o'r fath yn cael ei dderbyn. Dyma fydd yr achos efallai os yw setliad o gymynrodd weddol fawr yn cael ei ragweld neu os yw eiddo'n cael ei werthu. Fel rheol mae benthyca yn briodol fel mesur dros dro yn unig - mae costau'n gysylltiedig (ffioedd trefnu a llog) a bydd angen i'r ymddiriedolwyr wirio eu pwerau benthyca yn nogfen lywodraethol yr elusen. Yn ogystal, mewn dirywiad economaidd gall brofi'n anodd i gael unrhyw fath o fenthyciad.

- Cyfathrebu â rhanddeiliaid neu aelodau a all helpu a fydd yn galluogi elusen i ddod drwy gyfnod o anhawster ariannol.
- Ystyried ffyrdd eraill o gwtogi neu leihau gwariant arfaethedig er mwyn ceisio dod â lefel alldaliadau yn is na lefel derbyniadau.

Ailstrwythuro gweithrediadau'r elusen:

- Ystyried rhoi'r gorau i rai o weithgareddau'r elusen.
- Efallai y gellir realeiddio asedau sefydlog a buddsoddiadau. Byddai angen cytundeb benthyciwr gwarantedig os oes arwystl dros asedau. Fodd bynnag, ni fyddai benthyciwr gwarantedig yn debygol o roi cydsyniad i werediad i dalu credydwyr eraill.
- Gall fod cyfleoedd i uno ag elusennau eraill sydd â dibenion tebyg neu drafod telerau gyda nhw i helpu bodloni'r ymrwymiadau sy'n weddill. Rhaid bod yn ofalus iawn i sicrhau nad yw unrhyw weithredu yn rhoi credydwyr dan anfantais.
- Ystyried ailrannu. Mae codi cyllid pellach yn erbyn asedau elusen yn un ffordd y gallai sefydliadau sydd o dan bwysau godi digon o arian i'w galluogi i barhau â'u gweithrediadau.
- Os oes gan elusen waddol parhaol gall fod modd ceisio awdurdod gennym ni i fenthyca o'r cronfeydd hyn.
- Gallai'r ymddiriedolwyr ddefnyddio'r pwerau yn Neddf 1993 i wario gwaddol parhaol.
- Ym mhob achos mae'n rhaid i'r elusen fod yn glir ynghylch ei defnydd arfaethedig o'r arian ac y bydd ad-dalu yn bosibl.

Ch3. Beth mae yn nwylo gweinyddwyr yn ei olygu i gwmni elusennol?

C

Yr ateb byr

Mae gweinyddu yn weithdrefn llys sy'n rhoi amser i gwmni anadlu cyn i'r credydwyr weithredu - proses achub yw hi mewn gwirionedd.

Yn fwy manwl

Gall llys roi gorchymyn gweinyddu i alluogi cwmni i:

- oroesi, boed yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol, fel busnes gweithredol;
- gwneud trefniadau gwirfoddol neu gyfaddawdu gyda'i gredydwyr (gweler Ch4):
- cael realeiddiad gwell o'r asedau nag a fyddai'n bosibl pe byddai'r cwmni'n cael ei ddiddymu (gweler Ch5).

Mae'r weithdrefn yn cael ei rheoli gan weinyddwr, sy'n rhaid bod yn ymarferwr ansolfedd awdurdodedig.

Pan fydd cwmni yn nwylo gweinyddwyr, mae gweinyddwr yn cael ei benodi i weithredu er lles pob un o gredydwyr y cwmni a cheisio ei achub fel busnes gweithredol.

Ch4. A all elusen lunio cytundeb â'i chredydwyr?

C

Yr ateb byr

Pan fyddant yn wynebu ansolfedd posibl, gall elusennau ystyried llunio cytundeb â'u credydwyr fel dull achub i osgoi diddymu neu ddirwyn i ben gorfodol. Bydd natur y cytundeb yn dibynnu ar ei statws fel elusen gorfforedig neu anghorfforedig.

Yn fwy manwl

Cwmnïau elusennol: O dan adran 1 i adran 7B o'r Ddeddf Ansolfedd, gall cwmni elusennol lunio Cytundeb Gwirfoddol Cwmni (CGC) gyda'i gredydwyr. Gall y credwyr gytuno, fel rhan o'r cytundeb, i dderbyn gostyngiad yn eu dyled a/neu oedi yn y taliad. Byddai'n rhaid i'r cyfarwyddwyr wneud cais i'r llys gyda chymorth ymarferwr ansolfedd awdurdodedig, a fyddai'n goruchwylio'r cytundeb ac yn talu'r credydwyr yn unol â'r cynigion a dderbyniwyd.

Gall CGC gael ei weithredu yn ystod achos gweinyddu.

Cyflwynodd Deddf Ansolfedd 2000 drefn newydd i alluogi cwmni bach i gael moratoriwm lle y cynigir CGC. Mae moratoriwm yn rhoi cyfle i'r cwmni anadlu a rhoi amser i gyfarwyddwyr y cwmni gyflwyno cynllun achub i'w gredydwyr. Mae'n rhwystro credydwyr y cwmni rhag gweithredu yn erbyn y cwmni yn ystod y cyfnod perthnasol, gan ganiatáu i'r cyfarwyddwyr barhau i reoli'r cwmni i raddau helaeth.

Mae cwmni yn gymwys i gael moratoriwm os yw'n gallu bodloni dau neu ragor o'r meini prawf canlynol:

- trosiant o lai na £6.5 miliwn;
- cyfanswm mantolen o lai na £3.26 miliwn;
- llai na 50 o weithwyr.

Os yw cwmni eisoes yn nwylo gweinyddwyr, yn cael ei ddiddymu neu mewn derbynyddiad, mae eisoes wedi'i ddiogelu rhag gweithredu gan gredydwyr gan y gweithdrefnau hynny ac felly ni fyddai'n rhaid iddo geisio moratoriwm. Yn ogystal, nid yw moratoriwm ar gael os oes gan gwmni CGC yn ei le ar hyn o bryd neu os yw wedi cael moratoriwm yn y 12 mis blaenorol ac ni ddaeth y CGC arfaethedig i rym neu daeth i ben cyn pryd.

Elusennau anghorfforedig: Mae'n bosibl i ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig sy'n wynebu ansolfedd lunio cytundeb anffurfiol â'u credydwyr. Gallai'r credydwyr o dan drefniadau o'r fath gytuno i ohirio talu dyledion a rhwymedigaethau a ddaeth i'r ymddiriedolwyr ar ran eu helusen, a/neu gytuno i leihau maint eu hawliadau. Mae trefniadau o'r fath y tu allan i ddarpariaethau'r Ddeddf Ansolfedd. Os yw'r trefniadau yn gyfreithiol rwymol, bydd yn rhwymo'r credydwyr hynny sydd wedi arwyddo'r cytundeb yn unig. Argymhellwn fod cyngor proffesiynol priodol yn cael ei geisio cyn arwyddo cytundeb o'r fath.

Ch5. Beth yw'r cam nesaf os nad yw'r mecanweithiau achub hyn yn briodol?

C

Yr ateb byr

Os nad yw'r mecanweithiau achub a ddisgrifir uchod yn bosibl, diddymu neu ddirwyn i ben yw'r dewis olaf.

Yn fwy manwl

Cwmnïau elusennol: Pan fydd cyfarwyddwyr cwmni elusennol yn gwybod, neu y dylent wybod, nad oes unrhyw bosibilrwydd rhesymol o osgoi diddymiad ansolfent mae'n rhaid iddynt o'r adeg honno gymryd pob cam sydd ei angen i sicrhau'r golled leiaf posib i gredydwyr y cwmni. Gall hyn olygu cwtogi neu atal rhai neu'r cyfan o weithgareddau'r elusen. Mae talu ffioedd proffesiynol am gyngor wedi'i gyfiawnhau os yw'r ffioedd yn codi gyda'r nod o sicrhau'r canlyniad gorau i gredydwyr yr elusen.

Fel rheol ni fydd y llys yn gorchymyn diddymiad gorfodol cwmni elusennol ar sail anallu i dalu dyledion hyd nes bod credydwr naill ai:

- wedi cyhoeddi hysbysiad cyfreithiol ffurfiol o'r enw 'galw am dalu statudol', ac nid yw'r cais wedi'i fodloni (mae hyn yn gymwys i symiau sy'n fwy na £750 sy'n parhau heb ei dalu am 21 diwrnod); neu
- mae'r llys wedi barnu yn erbyn yr elusen, mewn perthynas â chais yn ei herbyn, ac nid yw'r cais hwnnw wedi cael ei fodloni.

Yn yr achosion hyn gall y credydwr ddeisebu'r llys i ddirwyn y cwmni i ben. Ar ôl i gwmni elusennol gael ei ddirwyn i ben, naill ai'n wirfoddol neu'n orfodol, mae'n cael ei roi dan reolaeth ymarferwr ansolfedd fel diddymwr. Yna mae'n rhy hwyr i'r cyfarwyddwyr weithredu eu hunain i achub yr elusen rhag bod yn ansolfent.

Gall aelodau o gwmnïau elusennol ddiddymu'r cwmni yn wirfoddol. Os yw aelodau cwmni yn pasio cynnig i ddiddymu'r elusen, **diddymiad gwirfoddol credydwyr** fydd hwn os yw'r cwmni yn ansolfent. Bydd yn **ddiddymiad gwirfoddol aelodau** os yw'r cwmni yn ddiddyled. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau yw mai'r credydwyr yn hytrach na'r aelodau sy'n rheoli'r dewis o ymarferwr ansolfedd yn achos diddymiad gwirfoddol credydwyr.

Elusennau anghorfforedig: Fel rheol bydd y penderfyniad i ddirwyn elusen anghorfforedig i ben yn un a gymerir yn wirfoddol yn unol â darpariaethau dogfen lywodraethol yr elusen.

Er na all elusennau anghorfforedig gael eu dirwyn i ben yn orfodol, gall eu hymddiriedolwyr wynebu gorchmynion cyfreithiol gan gredydwyr mewn perthynas â'r rhwymedigaethau a ddaeth i'w rhan nhw ar ran yr elusen.

Os yw ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig yn gweld nad oes unrhyw obaith rhesymol o osgoi ansolfedd, gall eu dyletswydd i weithredu'n ddoeth olygu cwtogi neu atal rhai neu holl weithgareddau'r elusen. Mae'n golygu bod mwy o debygolrwydd y bydd digon o eiddo yn parhau yn yr elusen i dalu costau'r dyledion a'r rhwymedigaethau a ddaeth i'w rhan wrth weinyddu'r elusen.

Os yw'r elusen yn wynebu ansolfedd, dylai'r ymddiriedolwyr gofio'r pwyntiau canlynol:

- Dylai taliadau i gredydwyr gael eu hamserlennu yn unol â'u blaenoriaeth.
- Ni ddylai asedau'r elusen gael eu dileu. Fodd bynnag, wrth ddirwyn i fyny mae arian parod yn bwysig ac os oes prynwyr ar gyfer asedau heb fod yn arian parod yr elusen, gellir eu gwerthu. Drwy wneud hyn rhaid i'r ymddiriedolwyr bob amser cofio'r angen i wneud y mwyaf o'r cronfeydd sydd ar gael i dalu credydwyr yr elusen.
- Os yw'r elusen yn fach neu os yw ei gweithrediadau yn syml ac yn ddidrafferth ac ni fu modd iddi benodi diddymwr proffesiynol, mae'n bosibl y bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr geisio cael cytundeb gan ei gredydwyr i lunio cytundeb gwirfoddol â nhw.

Mae'n hanfodol bod yr ymddiriedolwyr elusen yn cadw cofnod ysgrifenedig llawn o'r holl benderfyniadau a chamau sy'n cael eu cymryd drwy unrhyw gyfnod cau i lawr a'r rhesymu sy'n sail iddynt. Gall y broses o gymryd cofnodion manwl llawn annog proses feddwl strwythuredig a bydd yn helpu i ddiogelu'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau.

D. Rhwymedigaeth ymddiriedolwyr

D1. Beth yw dyletswydd gyffredinol ymddiriedolwr elusen?

C

Mae dyletswydd gan ymddiriedolwyr elusen i weithredu'n ddoeth ac yn rhesymol wrth weinyddu materion ariannol yr elusen. Mae'n rhaid iddynt sicrhau rheolaeth ariannol ddoeth a chydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys y gyfraith ansolfedd. Mae sefyllfa gyfreithiol ymddiriedolwyr elusen mewn achos ansolfedd yn amrywio yn ôl strwythur cyfreithiol yr elusen.

D2. Beth yw'r sefyllfa i ymddiriedolwr cwmni elusennol?

C

Yr ateb byr

Os yw elusen wedi cael ei hymgorffori o dan y Deddfau Cwmnïau, fel rheol bydd y cwmni ei hun yn atebol i dalu'r dyledion a ddaeth i'r cyfarwyddwyr ar ei ran. Fel rheol bydd cwmnïau elusennol yn gyfyngedig drwy warant ac ni fydd *aelodau'r* cwmni yn atebol i dalu dyledion y cwmni y tu hwnt i swm eu gwarant (swm nominal fel arfer). Fel rheol ni fydd y cyfarwyddwyr eu hunain yn atebol yn bersonol am ddyledion y cwmni, oherwydd bod hunaniaeth gyfreithiol ar wahân gan y cwmni (oni bai, er enghraifft, eu bod yn gwarantu i dalu'r dyledion yn bersonol). Fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau cyfyngedig sy'n cynnwys twyll, trafodion gwerth is, masnachu ar gam neu dor-ymddiriedaeth lle y gall cyfarwyddwyr wynebu rhwymedigaeth bersonol.

Yn fwy manwl

Fel swyddogion y cwmni, mae gan y cyfarwyddwyr:

- ddyletswyddau ariannol arbennig iddo, a gallant fod yn atebol i wneud taliadau i'r cwmni os yw colled yn deillio o'r tor-ddyletswyddau hynny; ac

- mewn rhai achosion, gallant golli eu diogelwch arferol rhag rhwymedigaeth bersonol am ddyledion y cwmni.

Fel y nodwyd yn B3, nid yw asedau a ddelir gan gwmni elusennol fel ymddiriedolwr, yn hytrach na fel rhan o'i eiddo corfforaethol, yn ffurfio rhan o'r eiddo sydd ar gael i'w ddosbarthu i gredydwyr y cwmni yn unol â chyfraith ansolfedd cwmnïau. Dim ond rhwymedigaethau sydd wedi codi'n briodol wrth weinyddu'r ymddiriedolaeth arbennig all gael eu bodloni o eiddo'r ymddiriedolaeth. Gall y cwmni elusennol gyflawni tor-ddyletswydd fel ymddiriedolwr os yw'n caniatáu i'r asedau sy'n cael eu dal ar ymddiriedolaeth gael eu dosbarthu i'w gredydwyr fel pe bai'r asedau hynny yn rhan o eiddo corfforaethol yr elusen. Felly gallai unrhyw gyfarwyddwr, diddymwr ac ati sy'n gyfrifol am ymrwymo cwmni elusennol i dor-ddyletswydd o'r fath fod yn gweithredu'n groes i'w ddyletswydd ymddiriedol tuag at yr elusen. Felly, gallent fod yn atebol i wneud iawn am golli ei eiddo ymddiriedolaeth.

Wrth ddirwyn i ben cwmni elusennol nad yw'n gallu talu ei holl ddyledion, gall cyfarwyddwr gael ei orchymyn gan y llys i gyfrannu at asedau'r cwmni os yw'n ymddangos, cyn dirwyn y cwmni i ben, bod ef neu hi:

- yn gwybod, neu dylai ef neu hi fod wedi casglu, nad oedd unrhyw obaith rhesymol y byddai'r elusen yn osgoi'r sefyllfa lle na fyddai'n gallu talu ei holl ddyledion; ond
- wedi parhau i ymgymryd â busnes heb gymryd pob cam i geisio cadw i'r lleiaf posibl golledion posib i gredydwyr yr elusen.

Mae'r cyfraniad y cyfeirir ato uchod yn ofynnol yn benodol at ddiben lleihau colledion y credydwyr. Mae'r cyfarwyddwr yn cael ei farnu yn ôl safonau cyfarwyddwr rhesymol yn ogystal â thrwy gyfeirio at ei gymwysterau a'i alluoedd unigol.

Os yw rhywun yn gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni elusennol tra ei fod wedi'i anghymhwyso rhag gwneud hynny, mae ef neu hi yn atebol yn uniongyrchol i'r credydwyr am unrhyw rwymedigaethau'r cwmni a gododd tra yr oedd ef neu hi yn ymwneud â rheoli'r cwmni. Mae hyn yn gymwys os yw wedi cael ei benodi'n ffurfiol fel cyfarwyddwr neu beidio. Mae manylion llawn materion o'r fath i'w gweld yn Neddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986. Mae gweithredu fel ymddiriedolwr tra rydych wedi'ch anghymhwyso yn drosedd hefyd o dan adran 73 o Ddeddf 1993.

D3. Beth yw'r sefyllfa i ymddiriedolwr elusen anghorfforedig?

C

Yr ateb byr

Os yw rhwymedigaeth wedi dod i ran ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig yn briodol, ond nid oes gan yr elusen ddigon o asedau i fodloni'r rhwymedigaeth, mae'n debyg y bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr hynny dalu'r diffyg yn bersonol.

Yn fwy manwl

Gall y modd y mae'r rhwymedigaeth hon yn cael ei rhannu rhwng yr ymddiriedolwyr ddibynnu ar delerau'r cytundeb y deilliodd y rhwymedigaeth ohono, ond fel rheol bydd y credydwr yn gallu erlyn unrhyw ymddiriedolwr am y rhwymedigaeth gyfan. Gall ymddiriedolwr sy'n rhaid talu mwy na'i gyfran hawlio cyfraniad teg gan yr ymddiriedolwyr eraill. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu y bydd unrhyw rwymedigaeth yn cael ei rhannu'n gyfartal rhwng yr ymddiriedolwyr y gellir dod o hyd iddynt, ac sy'n gallu talu, oni bai eu bod yn cytuno fel arall ymysg ei gilydd.

Ar yr amod bod y penderfyniad i dderbyn rhwymedigaeth ar ran yr elusen wedi cael ei wneud yn briodol yn unol â'i dogfen lywodraethol, mae pob ymddiriedolwr yn rhannu'r cyfrifoldeb am y rhwymedigaeth honno (oni bai bod telerau'r cytundeb y mae'r rhwymedigaeth yn deillio ohono yn datgan fel arall.) Fel rheol mae hawl gan ymddiriedolwyr o dan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000 i droi at asedau'r elusen am ad-daliad o unrhyw rwymedigaethau sydd wedi codi'n briodol. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r cyfrifoldeb a'r hawl i ad-daliad yn parhau hyd yn oed ar ôl i ymddiriedolwr ymddeol (ond sylwer nid dyma'r achos pan fydd y rhwymedigaeth yn deillio o gontract cyflogaeth - mae unrhyw hawliadau yn erbyn yr ymddiriedolwyr o dan y contract hwnnw yn hawliadau yn erbyn y corff ymddiriedolwyr fel yr oedd pan gafodd y contract ei dorri).

Y gofid i ymddiriedolwyr yw, yn absenoldeb unrhyw yswiriant perthnasol, bydd rhaid iddynt fodloni unrhyw ddyledion a rhwymedigaethau o'u poced eu hunain os na all yr elusen eu bodloni. Nid dyma fydd yr achos os yw'r dyledion a'r rhwymedigaethau wedi codi ar y sail bod y parti arall wedi cytuno y bydd rhaid iddynt gael eu bodloni dim ond os oes arian digonol yn yr elusen i wneud hynny. Er enghraifft, mae'r math hwn o gymal weithiau wedi'i gynnwys mewn prydlesi eiddo. Os yw rhwymedigaethau'r elusen yn fwy nag asedau personol yr ymddiriedolwyr, gallai'r ymddiriedolwyr eu hunain gael eu gorfodi i weithredu trefniadau methdaliad personol neu drefniadau gwirfoddol unigol.

D4. Beth yw sefyllfa corff ymddiriedolwyr corfforedig?

C

Mae Rhan 6 o Ddeddf 1993 hefyd yn caniatáu ar gyfer ymgorffori corff ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig. Mae hyn yn golygu y bydd y corff ymddiriedolwyr cyfan yn gallu arwyddo contractau neu ymrwymiadau eraill fel endid corfforaethol yn hytrach nag ymddiriedolwyr unigol, ond bydd yr ymddiriedolwyr unigol yn parhau i fod yn atebol yn bersonol am ddyledion yr elusen. Cewch ragor o wybodaeth am hyn yn ein canllaw *Ymgorffori Ymddiriedolwyr Elusennau* (CC43).

D5. Beth yw sefyllfa ymddiriedolwyr gwarchod ac ymddiriedolwyr daliannol?

C

Bydd elusennau anghorfforedig yn rhoi eiddo yn enw un neu ragor o'r ymddiriedolwyr daliannol neu ymddiriedolwr gwarchod yn aml. Ar yr amod nad oes ganddynt unrhyw reolaeth neu reolaeth ariannol dros yr elusen, dim ond yn dal yr eiddo ar ran yr elusen, nid ydynt yn ymddiriedolwyr elusen, ac felly ni fyddant yn atebol yn bersonol am unrhyw ddyledion yr elusen. Fodd bynnag, gall ymddiriedolwr gwarchod fod yn atebol os yw'n caniatáu neu'n cynorthwyo'r ymddiriedolwyr elusen i gyflawni tor-ymddiriedaeth.

Dd. Rôl y Comisiwn Elusennau

Dd1. Beth yw rôl y Comisiwn Elusennau pan fydd elusen yn wynebu ansolfedd?

Er ein bod wedi ein gwahardd gan y gyfraith rhag cymryd rhan yng ngweinyddiad mewnol elusen, gan gynnwys ailstrwythuro ac ailariannu, pan fydd diddyledrwydd yn fater dan sylw, efallai y bydd budd rheoleiddiol gennym. Fodd bynnag, rhaid i faterion sy'n ymwneud â hyfywedd ariannol fod yn fater i'r ymddiriedolwyr elusen a'u hymgynghorwyr proffesiynol.

Os oes angen cyngor ar elusen ynghylch defnyddio gwaddol parhaol neu gronfeydd cyfyngedig neu os yw'n dymuno holi ynghylch ymarfer unrhyw rai o bwerau statudol y Comisiwn, dylai gysylltu â ni yn gynnar yn y broses.

Dd2. Beth yw rôl y Comisiwn Elusennau yn achos camreoli, camweinyddu neu risg i eiddo elusen?

C

Yr ateb byr

Os yw camreoli, camweinyddu, neu risg i'r eiddo a ddelir at ddibenion elusennau yn cael ei amau, gallwn gychwyn ymchwiliad o dan adran 8 o Ddeddf 1993. Ymdrinnir â hyn yn ein canllaw *Cwynion am Elusennau* (CC47).

Yn fwy manwl

Os yw elusen yn destun ymchwiliad adran 8 mae'r pŵer gennym i benodi rheolwr dros dro o dan adran 18 o Ddeddf 1993 (oni bai bod diddymwr eisoes wedi cael ei benodi). Ni ddylid drysu rhwng y sawl a benodwyd â derbynnydd gweinyddol wedi'i benodi er budd credydwr gwarantedig elusen boed o dan y Ddeddf Ansolfedd neu fel arall.

Gall rheolwr dros dro gael ei benodi drwy ddefnyddio ein pwerau os ydym yn fodlon nad yw'r ymddiriedolwyr wedi gweithredu'n briodol, neu os teimlwn fod risg i eiddo'r elusen. Mewn rhai achosion gellid gwneud y penodiad mewn cydweithrediad â'r ymddiriedolwyr.

Gall rheolwr dros dro gael ystod o gyfarwyddiadau gennym ac fel rheol mae'n cyflawni rôl yr ymddiriedolwyr am gyfnod ei benodiad. Gallai hyn gynnwys adolygu hyfywedd cyffredinol yr elusen.

Gallwn hefyd dderbyn cwynion am ymddiriedolwyr elusen neu'r ffordd y cafodd yr ansolfedd ei drin. Byddem yn ystyried cwynion o'r fath yn yr un ffordd â chwynion eraill am elusen.

Dd3. Beth yw'r drefn i'w dilyn i ddileu elusen o'r Gofrestr Elusennau?

C

Yr ateb byr

Mae dyletswydd gan ymddiriedolwyr i ddweud wrthym pan fydd eu helusen wedi dirwyn i ben. O dan adran 3(4) o Ddeddf 1993 mae dyletswydd gennym i ddileu elusennau o'r Gofrestr Elusennau Ganolog os ydynt yn peidio â bodoli neu'n peidio â gweithredu.

Yn fwy manwl

Cwmnïau elusennol: Byddem yn disgwyl i'r diddymwr gydgysylltu â ni ynglŷn ag unrhyw ddogfennaeth sydd ei hangen i ddileu'r elusen o'r Gofrestr pan gaiff ei diddymu. Hefyd byddem yn disgwyl i'r diddymwr roi gwybod i ni wedi hyn pan fydd y diddymiad wedi cael ei gwblhau ac mae'r cwmni wedi cael ei ddiddymu o dan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Elusennau anghorfforedig: Ymddiriedolwyr elusen fydd yn penderfynu dirwyn yr elusen i ben yn unol â'i dogfen lywodraethol, gan geisio cyngor proffesiynol priodol fel y bo angen.

Dylid nodi'r holl asedau a rhwymedigaethau. Dylai unrhyw asedau sy'n weddill ar ôl bodloni ceisiadau priodol y credydwyr gael eu defnyddio gan yr ymddiriedolwyr yn unol â'r ddarpariaeth ddiddymu yn nogfen lywodraethol yr elusen. Os nad oes darpariaeth ddiddymu o'r fath dylent geisio ein cyngor ni.

Am wybodaeth bellach ar sut i ddileu elusen o'r Gofrestr Elusennau a chyrchu'r ffurflen ddileu ar-lein, gweler *Cau neu uno elusen*.

E. Ffynonellau gwybodaeth bellach

Mae'r Comisiwn Elusennau yn cynhyrchu ystod eang o gyhoeddiadau a chanllawiau ar y wefan sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i ymddiriedolwyr elusen a'r cyhoedd ar nifer o faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith elusennau, rheoleiddio ac arferion da.

Rydym hefyd wedi rhestru yma rhai sefydliadau a chyhoeddiadau eraill y gellir eu defnyddio fel ffynonellau gwybodaeth.

E1. Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau

Mae'r rhestr o'n canllawiau isod yn ddetholiad wedi'i seiliedig ar rai o'r materion a nodwyd yn y canllaw hwn.

Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod (CC3)

Rheolaethau Ariannol Mewnol ar gyfer Elusennau (CC8)

Elusennau a Rheoli Risg (CC26)

Ymddiriedolwyr, masnachu a threth (CC35)

Elusennau ac Yswiriant (CC49)

Nodweddion Elusen Effeithiol (CC10)

Elusennau a chronfeydd wrth gefn (CC19)

Ymgorffori ymddiriedolwyr elusennau (CC43)

Cyfrifon ac adroddiadau elusennau: Yr hanfodion Ebrill 2009 (CC15b)

Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau a Chynlluniau Pensiwn â Buddion Wedi'u Diffinio

Cynlluniau Pensiwn Buddion Wedi'u Diffinio - Cwestiynau ac Atebion

E2. Sefydliadau ac adnoddau defnyddiol eraill

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)

Mae gwefan HMRC yn cynnwys gwybodaeth ar amrywiaeth o faterion o ddiddordeb i elusennau gan gynnwys Cymorth Rhodd, Rhoi Trwy'r Gyflogres, gostyngiadau treth a TAW.

Tollau a Chyllid EM Elusennau
St Johns House
Merton Road
Lerpwl
L75 1BB

Llinell gymorth elusennau: 0845 302 0203
E-bost: charities@hmrc.gov.uk
Cyfeiriad gwe: www.hmrc.gov.uk

The Charity Finance Directors' Group (CFDG)

Sefydliad aelodaeth yw hwn sy'n helpu elusennau i reoli eu cyfrifon, materion treth, archwiliadau a swyddogaethau cyllid cysylltiedig eraill. Mae ganddo dudalen we ddefnyddiol Recession Watch.

CFDG
3rd Floor
Downstream Building
1 London Bridge
Llundain SE19BG

Ffôn: 0845 345 3192
E-bost: info@cfdg.org.uk
Cyfeiriad gwe: www.cfdg.org.uk

Y Gwasanaeth Ansolfedd

Mae gwefan y Gwasanaeth Ansolfedd yn cynnig ystod eang o gyngor a gwybodaeth ar faterion sy'n ymwneud ag ansolfedd gan gynnwys cronfa ddata o'r holl ymarferwyr ansolfedd (http://www.insolvency-service.co.uk/newipsearch.htm).

Y Rheoleiddiwr Pensiynau

Mae'r rheoleiddiwr yn gweithio i wella hyder mewn pensiynau seiliedig ar waith drwy ddiogelu buddion aelodau a hyrwyddo safonau uchel ac arferion da yn y gwaith o redeg cynlluniau pensiwn.

Y Rheoleiddiwr Pensiynau
Napier House
Trafalgar Place
Brighton
BN1 4DW

Ffôn: 01273 811800
E-bost: customersupport@thepensionsregulator.gov.uk
Cyfeiriad gwe: www.thepensionsregulator.gov.uk

Tŷ'r Cwmnïau

Prif swyddogaethau Tŷ'r Cwmnïau yw:

- ymgorffori a diddymu cwmnïau cyfyngedig;
- archwilio a storio gwybodaeth am gwmnïau a ddarparwyd dan y Ddeddf Cwmnïau 2006 a deddfwriaeth gysylltiedig; a
- rhoi'r wybodaeth hon i'r cyhoedd

Mae'n darparu canllawiau ar ddiddymu ac ansolfedd sydd i'w gweld ar www.companieshouse.gov.uk/about/guidance.shtml.

Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Y Maendy
Caerdydd CF14 3UZ

Ffôn: 0303 1234 500
E-bost: enquiries@companies-house.gov.uk
Cyfeiriad gwe: www.companieshouse.gov.uk

Mae modd cyrchu'r cyhoeddiad hwn ar wefan y Comisiwn Elusennau hefyd: www.charitycommission.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2010. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Elusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Rheoli Trafferthion Ariannol ac Ansolfedd mewn Elusennau. Mehefin 2010. **CC12**